

## Tynnwch fy llun



### Byddwch angen:

- Darn mawr o bapur (digon mawr i'ch plentyn orwedd i lawr arno)
- Pin marcio/pensil/creon i dynnu llun amlinellol
- Unrhyw bensiliau lliw/paent yr ydych yn dymuno eu defnyddio ar gyfer addurno

### Dull:

- Rhowch eich papur ar lawr caled
- Os nad ydych yn meddwl bod eich papur yn ddigon mawr i'ch plentyn orwedd arno, gosodwch sawl darn gyda'i gilydd nes bydd yn ddigon mawr - neu defnyddiwch hen bapur wal os oes gennych beth

# DYSGU DRWY CHWARAE - Tynnwch fy llun

- Gofynnwch i'ch plentyn orwedd ar y papur ... byddant angen aros yn llonydd!
- Defnyddiwch y pin marcio/pensel neu greon, tynnwch lun o amgylch eich plentyn i greu amlinelliad
- **Rhybudd: gall hyn achosi giglan!**
- Unwaith y byddwch wedi tynnu llun yr amlinelliad, gall eich plentyn godi a dechrau addurno
- Gofynnwch i'ch plentyn dynnu llun ei wallt a'i wyneb
- Siaradwch am y lliwiau maent yn eu defnyddio
- Gallant dynnu llun a lliwio dillad
- Beth am ofyn iddynt dynnu llun eu hunain fel yr hoffen nhw fod: fel arwr, tywysoges, meddyg - anogwch nhw i ddefnyddio eu dychymyg

## Pam ddim?

- Bob yn ail, lluniwch linell o amgylch eich gilydd?

## Manteision y gweithgaredd hwn:

- Bydd yn annog eich plentyn i nodi rhannu o'r corff a datblygu dealltwriaeth o fod yn unigolyn
- Bydd hefyd yn datblygu eu creadigrwydd a dychymyg, yn ogystal â gwneud cofrodd bendigedig